**<u>Memorandwm Esboniadol ar gyfer:</u>**

***Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2023***

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig yr is-ddeddfwriaeth a restrir uchod.

Julie James
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
03 Ebrill 2023

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn ("EM") yn darparu gwybodaeth ynglŷn â dau ddarn o is-ddeddfwriaeth sy'n cael eu gwneud o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) (Diwygio) 2021 ('Deddf 2021').
Mae Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2023 (y '*Rheoliadau Diwygiadau Canlyniadol*') yn gwneud diwygiadau angenrheidiol i Ddeddf Rhenti 1977 o ganlyniad i ddarpariaethau Deddf 2016.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

Mae adran 255 o Ddeddf 2016 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud unrhyw ddiwygiadau canlyniadol angenrheidiol at y diben o roi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth o'r fath.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r OS hwn yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Rhenti 1977, yn benodol er mwyn darparu ar gyfer olyniaeth i gontract diogel lle cyn hynny roedd yr hawl olyniaeth yn pennu tenantiaeth sicr (diddymwyd tenantiaethau sicr yng Nghymru gan Ddeddf 2016).

Yn gyffredinol, mae'r diwygiadau hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol mewn deddfwriaeth sylfaenol yn parhau i gael effaith briodol drwy gyfeirio at y contractau meddiannaeth perthnasol ochr yn ochr â chyfeiriadau at fathau o denantiaethau sydd bellach ond yn bodoli yn Lloegr.

Mae'r diwygiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn rhoi effaith lawn i ddarpariaethau Deddf 2016, darparu cydlyniant, eglurder a sicrhau bod y gyfraith yn gyson ac yn gallu cael ei gweithredu.

## 5. Ymgynghori

Yn sgil natur dechnegol y ddau OS hyn, a'r ffaith nad oes yr un o'r diwygiadau y maent yn eu cynnwys yn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i safbwyntiau polisi a nodir yn y ddeddfwriaeth sylfaenol ei hun, ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

O ystyried mai effaith yr OSau hyn yw cadw, cyn belled ag y bo modd, cydbwysedd o ran yr hawliau a hawlogaethau y mae landlordiaid a thenantiaid/trwyddedeion yn eu mwynhau, a sicrhau bod deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu yn unol â pholisi

Llywodraeth Cymru a nodwyd yn flaenorol, ni chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r OSau hyn.